Llais Defnyddwyr Cymru
Cyngor Newydd Defnyddwyr Cymru

Consumer Focus Wales
The new Consumer Council for Wales

# Pris arian parod

*Lindsey Kearton*

# Amdanom ni

Corff statudol yw Llais Defnyddwyr Cymru. Fe'i sefydlwyd drwy Ddeddf Defnyddwyr, Gwerthwyr Tai a Gwneud Iawn 2007, ac mae'n ymgyrchu dros sicrhau chwarae teg i ddefnyddwyr.

Mae ein strwythur yn adlewyrchu natur ddatganoledig y DU. Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr yng Nghymru, ac ar yr un pryd mae'n cyfrannu i waith ac yn manteisio ar waith a wneir ar lefel Prydain Fawr, y DU ac Ewrop. Cawsom ein creu drwy uno tri chorff defnyddwyr – Golwg ar Ynni, Golwg ar Bost a Chyngor Defnyddwyr Cymru. Mae'r dull hwn o weithredu'n ein galluogi i gynnig eiriolaeth fwy cydlynol ar ran defnyddwyr, oherwydd ceir un corff sy'n siarad â llais grymus ac sydd mewn sefyllfa well i allu crynhoi arbenigedd o fwy nag un sector i ymdrin â materion sy'n peri pryder.

Wrth gynnig eiriolaeth ar ran defnyddwyr, ein nod yw dylanwadu ar newidiadau a pholisi fel eu bod yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr yn well. Rydym yn gwneud hynny mewn modd deallus yn sgîl y dystiolaeth a gasglwn drwy waith ymchwil, a'n gwybodaeth unigryw am faterion sy'n ymwneud â defnyddwyr. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddwyr bregus, yn enwedig y sawl sydd ar incwm isel, pobl ag anableddau, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phobl hŷn. Yn ogystal, rydym yn ceisio adnabod meysydd lle gallai problem neu bolisi olygu bod defnyddwyr eraill dan anfantais anghymesur.

**Ysgrifennwyd gan: Lindsey Kearton**
**Llais Defnyddwyr Cymru**

*Diolchiadau: Hoffai Llais Defnyddwyr Cymru ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws ynghyd â Fiona McAllister, Rheolwr-Gyfarwyddwr Beaufort Research Ltd am eu help â'r prosiect hwn.*

**www.consumerfocus-wales.org.uk**

Hawlfraint: Llais Defnyddwyr Cymru
Cyhoeddwyd: Tachwedd 2009

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print bras neu ar CD sain.
Gall pobl sy'n fyddar, sy'n drwm eu clyw neu sydd â nam ar eu lleferydd gysylltu â Llais Defnyddwyr Cymru drwy Text Relay:

Os ydych yn defnyddio ffôn testun,
ffoniwch 18001 02920 78 7100
Os ydych yn defnyddio ffôn cyffredin,
ffoniwch 18002 02920 78 7100

**Llais Defnyddwyr Cymru**
3ydd Llawr
Tŵr y Ddinas
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd
CF10 3AG

Ffôn: 02920 787100
Ffacs: 02920 787101
Tîm y Cyfryngau: 02920 787 110/111
E-bost: contactwales@consumerfocus.org.uk

ISBN: 978-1-907125-05-8

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Pam byw ar arian parod? | 7 |
| Cost cael gafael ar arian | 11 |
| Benthyca neu beidio â benthyca? | 13 |
| Opsiwn arall fforddiadwy | 19 |
| Rhwyd ddiogelwch ariannol | 23 |
| Casgliad | 25 |
| Argymhellion | 27 |
| Atodiad - Methodoleg | 29 |


PAST
DUE

# Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o brofiadau dyddiol teuluoedd sydd ar incwm isel yng Nghymru, sy'n byw i raddau helaeth ar arian parod, ac mae'n rhoi sylw hefyd i'r modd y maent yn rheoli eu harian, eu hagweddau cyffredinol at faterion ehangach yn ymwneud ag arian, a'r bobl y maent yn troi atynt os oes angen arian ychwanegol arnynt.

Mae'n dangos sut y mae pobl sydd heb gyfrifon banc, pobl y mae'n well ganddynt reoli arian parod, neu bobl nad ydynt yn medru defnyddio cyfleusterau credyd prif-ffrwd, yn aml yn talu mwy yn y pen draw am nwyddau a gwasanaethau hanfodol pob dydd oherwydd y modd y maent yn talu amdanynt.

Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n amgylchynu'r modd y mae llawer o ddefnyddwyr sydd ar incwm isel yn rhyngweithio â chynnyrch a gwasanaethau ariannol, a'r modd y mae ystod o ffactorau'n dylanwadu ar eu hymddygiad wrth drin arian.

Roedd yn amlwg bod gan y mwyafrif o'r rheiny a gymerodd ran yn ein hymchwil agwedd 'synhwyrol' iawn at reoli arian. Roedd yr angen i gadw rheolaeth ar eu harian, awydd cyffredinol i osgoi mynd i ddyled, ac ymddiriedaeth (neu ddiffyg ymddiriedaeth) mewn gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ariannol i gyd yn ffactorau allweddol a oedd yn gwneud iddynt ddewis defnyddio arian parod. Nid oedd unrhyw fanc wedi gwrthod rhoi cyfrif i neb yn ein hastudiaeth, ac nid oedd neb yn teimlo na allent agor cyfrif pe baent am wneud hynny. Dangosai hynny, pan ddaw'n fater o fanteisio i'r eithaf ar botensial cyfrifon banc, bod achosion lle mae pobl yn eu hamddifadu eu hunain o'r cyfle hwnnw'n gyffredin.

Yr hyn sy'n fwy pwysig i'w nodi, fodd bynnag, yw'r ffaith bod ymdeimlad o eithrio gorfodol yn amlwg mewn meysydd eraill, er enghraifft, wrth geisio cael gafael ar gredyd am bris rhesymol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae cefnogaeth hollbwysig aelodau eraill y teulu'n eglur. Yn achos mathau eraill o gynnyrch ariannol, megis yswiriant a chynilion, mae gallu pobl i'w fforddio'n broblem wirioneddol a allai arwain at ganlyniadau trychinebus.

Mae datblygu cynnyrch a gwasanaethau ariannol sy'n fwy addas i anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr sydd ar incwm isel yn elfen hollbwysig o'r agenda ynghylch cynhwysiant ariannol. Erbyn hyn, ceir ystod o gynnyrch y bwriedir iddo helpu i ddiwallu'r anghenion hynny – cyfrifon banc sylfaenol, benthyciadau a chyfrifon cyfredol undebau credyd, cynlluniau yswiriant gyda rhent, a'r Porth Cynilo[1] (y disgwylir iddo gael ei weithredu'n genedlaethol yn 2010) i enwi dim ond rhai. Fodd bynnag, mae pob un o'r rhain wedi profi lefelau amrywiol o lwyddiant, o ran nifer y bobl sy'n manteisio arnynt a'r graddau y cânt eu defnyddio.

Mae'n debyg bod y rhesymau am hynny'n niferus ac yn amrywiol. Er mai astudiaeth fach oedd hon, ceir arwyddion sy'n awgrymu nad yw peth o'r cynnyrch sydd ar gael efallai'n diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn. Yn achos cynnyrch neu wasanaethau eraill, megis undebau credyd a chynlluniau yswiriant gyda rhent, mae'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y maent yn gweithio neu ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r ffaith eu bod hyd yn oed yn bodoli.

[1] Cynllun cynilo arian a gefnogir gan y Llywodraeth yw'r Porth Cynilo, i annog pobl o oedran gweithio sydd ar incwm isel (h.y. pobl sydd naill ai'n cael neu'n gymwys i gael rhai credydau treth neu fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau) i ddechrau cynilo symiau bach o arian (hyd at £25/mis). Gall y sawl sy'n cynilo dynnu eu harian allan unrhyw bryd. Y cymhelliant i gynilo yw'r ffaith bod y llywodraeth yn cyfrannu 50 ceiniog am bob punt a gaiff ei chynilo. Bydd y cyfraniad hwnnw'n cael ei seilio ar y swm uchaf sydd yn y cyfrif ar unrhyw adeg dros y ddwy flynedd (ac nid o reidrwydd ar sail y swm sydd wedi'i gynilo erbyn diwedd y ddwy flynedd).

Mae'n well gan lawer o ddefnyddwyr ddefnyddio arian parod i dalu am nwyddau a gwasanaethau, a dylai cadw'r dewis hwnnw barhau i fod yn elfen bwysig o'r agenda ynghylch cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, gellid gwella'r cynnydd a wneir o ran lleihau achosion o eithrio ariannol, drwy feithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar ymddygiad pobl wrth iddynt drin arian. Yn ogystal bydd mynd i'r afael â phryderon defnyddwyr ynghylch rhai mathau o gynnyrch, gan godi ymwybyddiaeth o opsiynau eraill rhatach, a datblygu gallu darparwyr eraill yr ymddiriedir ynddynt i gynnig gwasanaethau ariannol ychwanegol i gyd yn hollbwysig i newid ymddygiad sydd wedi dod yn arfer ers amser maith.

Cafwyd nifer o ddatblygiadau pwysig a derbyniol iawn i hybu cynhwysiant ariannol yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf. Mae nifer o argymhellion o ran polisi wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn i helpu i symud y gwaith dan sylw'n ei flaen.

# Cyflwyniad

I'r rhan fwyaf o bobl, mae cael cyfrif banc yn rhan o'u bywyd pob dydd. Nid oes angen i ni gario gormod o arian parod, oherwydd gallwn ddefnyddio cerdyn debyd i dalu am y rhan fwyaf o bethau, a bydd taliadau debyd uniongyrchol misol yn gofalu bod llawer o filiau ein cartref yn cael eu talu. Os bydd angen arian parod arnom, gallwn gael gafael arno'n hawdd fel arfer drwy nifer fawr o beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim, neu drwy ofyn am arian parod pan fyddwn yn defnyddio ein cerdyn debyd i dalu am nwyddau. Pan allai fod arnom angen ychydig o gymorth ariannol ychwanegol, gallwn ddefnyddio gorddrafft y cytunwyd arno â'n banc neu'n cymdeithas adeiladu, neu gallwn ddewis trefnu benthyciad personol neu ddefnyddio cerdyn credyd.

Mae cael cyfrif banc yn ein galluogi ni hefyd i fanteisio ar fargeinion ar-lein a rhannu'r gost o brynu rhai eitemau drud, megis dodrefn, nwyddau trydanol mawr ac yswiriant, dros sawl mis os ydym yn dymuno, sy'n golygu eu bod nhw'n fwy fforddiadwy at ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n wahanol iawn i bobl nad ydynt yn rhyngweithio fawr ddim â chynnyrch neu wasanaethau ariannol, a bydd llawer o'r bobl hynny eisoes yn byw ar incwm isel neu incwm cyfyngedig. Yn amlach na pheidio, bydd pobl sydd heb gyfrifon banc, pobl y mae'n well ganddynt reoli arian parod, neu bobl nad ydynt yn medru defnyddio cyfleusterau credyd prif-ffrwd, yn talu mwy yn y pen draw am deledu neu soffa newydd, yn talu mwy am fenthyca arian pan fydd problemau'n codi'n achlysurol, ac yn talu mwy i gael gafael ar eu harian am fod yn rhaid iddynt deithio ymhellach i ddod o hyd i beiriant arian y gellir ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim, neu am fod yn rhaid iddynt ddibynnu ar gyfleusterau drud i newid siec.

Mae arian parod yn parhau i fod yn ddull pwysig o dalu i lawer ohonom. Mewn arolwg diweddar, dywedodd dwy ran o dair o'r boblogaeth yng Nghymru (67%) fod yn well ganddynt dalu am bethau ag arian parod, oherwydd bod hynny'n rhoi mwy o reolaeth iddynt ar eu harian[2] . Fodd bynnag, roedd y cysylltiad rhwng incwm a dymuniad i ddefnyddio arian parod yn amlwg iawn. Dywedodd mwy nag wyth person allan o ddeg a oedd yn perthyn i grwpiau cymdeithasol DE[3] (82%) bod yn well ganddynt ddefnyddio arian parod, o'i gymharu â llai na hanner y rheiny a oedd yn perthyn i grwpiau cymdeithasol AB[4] (44%).

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o brofiadau dyddiol teuluoedd sydd ar incwm isel yng Nghymru, sy'n byw i raddau helaeth ar arian parod, ac mae'n rhoi sylw hefyd i'r modd y maent yn rheoli eu harian, eu hagweddau cyffredinol at faterion ehangach yn ymwneud ag arian, a'r bobl y maent yn troi atynt os oes angen arian ychwanegol arnynt.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ganlyniadau trafodaethau pedwar grŵp ffocws, a gynhaliwyd mewn lleoliadau ar draws Cymru ym mis Mawrth 2009. Ffocws yr ymchwil oedd pobl â phlant dan 16 oed yn byw ar eu haelwyd[5].

Mae'r ymchwil hefyd yn rhan o astudiaeth ehangach ynghylch yr hyn a elwir yn aml yn 'bremiwm tlodi'[6] a'r modd y mae'n effeithio ar deuluoedd yng Nghymru. Mae'r astudiaeth honno'n ymdrin â materion megis cost addysg, gwasanaethau ariannol a thanwydd, a chaiff ei harwain gan Sefydliad Bevan, mewn partneriaeth â Llais Defnyddwyr Cymru, NEA Cymru ac Achub y Plant.

---

[2] 'Mynediad at Arian Parod', Cyngor Defnyddwyr Cymru (Awst 2008)
[3] Gweithwyr llaw lled-grefftus/di-grefft; pobl sydd ar y lefel isaf o ran cynhaliaeth
[4] Swyddi rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolradd/uwch
[5] Gellir dod o hyd i fethodoleg yr ymchwil yn yr Atodiad. Oherwydd natur ansoddol yr ymchwil, dylai'r canlyniadau gael eu trin fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant.
[6] Caiff y term 'premiwm tlodi' ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio'r costau y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu i gael gafael ar arian a chredyd a thalu am nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Yn ôl gwaith a wnaed gan Achub y Plant a'r Gymdeithas Lles Teuluoedd yn 2007, amcangyfrifwyd bod y 'premiwm tlodi' yn werth oddeutu £1,000 y flwyddyn.




"Rydych yn gwybod faint o arian sydd gennych o un diwrnod i'r llall wrth dalu ag arian parod." ***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

# Pam byw ar arian parod?

Daeth realiti ymdopi â bywyd ar incwm isel yn amlwg iawn yn ystod ein hymchwil. Soniodd pobl am y frwydr gyson i gael deupen llinyn ynghyd a darparu ar gyfer eu teuluoedd.

Roedd mwyafrif y defnyddwyr yn ein hastudiaeth[7] yn dewis talu ag arian parod, ac nid oedd yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud. Nid oedd unrhyw fanc wedi gwrthod rhoi cyfrif i neb, ac nid oedd neb yn teimlo na allent agor cyfrif pe baent am wneud hynny. Mewn gwirionedd, roedd gan lawer o'r defnyddwyr gyfrif o ryw fath neu'i gilydd (e.e. cyfrif cyfredol, cyfrif banc sylfaenol, Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post) ond yn gyffredinol byddent yn tynnu arian allan ar gyfer yr wythnos cyn gynted ag y byddai arian wedi'i dalu i mewn i'w cyfrifon.

Roedd hynny'n eu galluogi i drefnu eu harian yn haws drwy neilltuo arian ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol, megis biliau a bwyd, ac asesu faint oedd ganddynt yn weddill ar gyfer treuliau eraill.

Cadw rheolaeth ar eu harian oedd y ffactor hollbwysig, a dyna oedd y prif gymhelliant dros ddefnyddio arian parod yn achos y mwyafrif, a oedd yn bobl o bob oed.

"Rydych yn gwybod faint o arian sydd gennych o un diwrnod i'r llall wrth dalu ag arian parod." ***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

"Mae'n well. Rwy'n gwybod ble'r ydw i arni, mae'n haws. Rydych chi'n gwybod faint sydd gennych ar ôl i'w wario." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Roedd gwybod na allent wario unrhyw arian ar wahân i'r hyn a oedd ganddynt yn eu pwrs arian/pocedi hefyd yn helpu i leddfu eu hofnau ynghylch mynd i ddyled yn fwriadol neu'n anfwriadol – rhywbeth a gâi ei gysylltu'n fynych â defnyddio cyfrif banc. Yn aml, roedd y teimladau hynny wedi'u gwaethygu gan broblemau penodol o ran dyled, a oedd yn gysylltiedig â thaliadau gorddrafft nas awdurdodwyd ac anawsterau i ad-dalu'r ddyled yn dilyn hynny. Yn ôl pob golwg, roedd pobl fel pe baent yn hoffi'r ffaith nad oedd Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post[8] yn cynnig unrhyw gyfleusterau gorddrafft neu ddebyd uniongyrchol, gan fod hynny'n eu hatal rhag gorfod poeni am daliadau neu gael eu temtio i orwario.

Yn ogystal, ymddangosai fod pobl iau'n anad neb yn amheus ac yn ddrwgdybus yn gyffredinol ynghylch banciau, yn enwedig y modd y maent yn gweinyddu cyfleusterau debyd uniongyrchol. Yr unig beth yr oedd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r holl gyhoeddusrwydd ynghylch diffyg sefydlogrwydd llawer o fanciau wedi'i wneud oedd dwysáu'r teimladau hynny yn achos rhai pobl.

[7] Dylid nodi bod yr ymatebwyr wedi'u recriwtio ar y sail eu bod yn tueddu i reoli arian parod.

[8] Mae Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post yn gyfrif syml tu hwnt na ellir ei ddefnyddio ond i roi budd-daliadau, pensiynau'r wladwriaeth a thaliadau credydau treth ynddo. Ni ellir talu unrhyw daliadau eraill i mewn iddo, megis Budd-dal Tai, pensiynau galwedigaethol neu gyflogau. Caiff deiliaid y cyfrifon gerdyn plastig a rhif adnabod personol sy'n eu galluogi i dynnu arian allan am ddim neu ymholi ynghylch faint o arian sydd yn y cyfrif, ond dim ond mewn cangen o Swyddfa'r Post y gallant wneud hynny.

"Mae gen i gyfrif mewn cymdeithas adeiladu. Dwi ddim am gael cyfrif banc. Cefais drafferthion gydag un o'r blaen. Wna i byth ddefnyddio cyfrif banc eto." ***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

"Maen nhw'n codi £40 arnoch os ewch chi i ddyled o 1 neu 2 geiniog ar ôl i ddebyd uniongyrchol dynnu arian allan o'r cyfrif."

***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Roedd rhai pobl wedi agor eu cyfrif banc pan oeddent wedi dechrau gweithio, fel bod modd talu eu cyflog i mewn iddo. Roedd aelwydydd ag o leiaf un yn ennill cyflog (aelwydydd â dau oedolyn yn bennaf) yn fwy tebygol o fod â chyfrifon cyfredol cyffredin. Fodd bynnag, roedd rhieni sengl ifanc (a oedd yn dibynnu i raddau helaeth ar fudd-daliadau) yn tueddu i fod â math sylfaenol o gyfrif, ac ymddangosai eu bod yn ymddiried mwy yng ngwasanaethau Swyddfa'r Post na gwasanaethau'r banc, a'u bod yn fwy bodlon â nhw. Roeddent yn teimlo bod cyfleusterau cyfyngedig Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post (fel lle i gadw'r budd-daliadau a gaent) a'r rheolaeth ymddangosiadol yr oedd y cyfrif hwnnw'n ei rhoi iddynt, yn fwy priodol i'w hanghenion na chyfrif cyfredol cyffredin.

Roedd llawer o bobl wedi defnyddio cyfleusterau debyd uniongyrchol rywbryd, ac roedd llawer yn parhau i'w defnyddio i dalu am rai gwasanaethau, yn enwedig pan nad oedd modd talu mewn unrhyw ffordd arall (e.e. pan oedd angen talu am danysgrifiad i deledu lloeren a chebl). Fodd bynnag, roedd dryswch a diffyg ymddiriedaeth yn amlwg ynghylch sut yr oedd y cynllun yn gweithio. Teimlai rhai mai bach iawn o reolaeth oedd gan bobl ar daliadau debyd uniongyrchol (yn enwedig dyddiadau talu), ac ymwybyddiaeth gyfyngedig oedd gan rai pobl o'u hawliau dan y Warant Debyd Uniongyrchol – sy'n cynnwys yr angen i berson sy'n cael y taliad (e.e. cyflenwr y gwasanaeth) hysbysu'r cwsmer ymlaen llaw o unrhyw newid i'r swm sydd i'w dalu neu'r dyddiad talu (ac eithrio newidiadau oherwydd penwythnosau neu wyliau cyhoeddus). Roedd yr ansicrwydd ynghylch dyddiadau wedi peri i rai ymatebwyr fynd i orddrafft, ac o ganlyniad roeddent wedi cael eu cosbi â thaliadau ychwanegol sylweddol.

"Wrth ddefnyddio arian parod, rydych yn gwybod eich bod wedi talu. Wrth dalu drwy'r banc, allwch chi ddim bod yn siŵr y byddan nhw'n cael yr arian pan ddylen nhw." ***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

"Dwi ddim yn hoffi cyfleusterau debyd uniongyrchol. Byddan nhw'n rhoi dyddiad i chi, ac yna'n cymryd yr arian wythnos yn gynnar neu wythnos yn hwyr, a byth yn ei gymryd ar y dyddiad iawn, a chi sy'n gorfod wynebu taliadau gan y banc wedyn." ***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Yn achos rhai gwasanaethau, os na ddefnyddiwch chi gyfleusterau debyd uniongyrchol, maen nhw'n codi £5 arall arnoch... a byddwch yn dechrau meddwl bod yn rhaid i chi dalu drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn arbed £5 y mis, sy'n llawer o arian dros nifer o fisoedd." ***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

O ganlyniad, er bod pobl yn ymwybodol o gost uwch defnyddio arian parod yn hytrach na debyd uniongyrchol i dalu rhai biliau, roeddent yn teimlo bod manteision defnyddio arian parod yn fwy na'r gost ychwanegol honno. Roedd y sawl a gymerodd ran yn ein hymchwil yn amau tegwch hynny, yn enwedig o gofio'u bod yn talu ymlaen llaw am y gwasanaeth mewn rhai achosion, er enghraifft, wrth ddefnyddio mesuryddion rhagdalu neu wasanaethau ffôn symudol talu-wrth-fynd.

Isod, mae Tabl 1 yn dangos y gwahaniaethau a delir yn flynyddol gan gwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu i dalu am nwy a thrydan, cwsmeriaid sy'n talu eu biliau bob chwarter (h.y. credyd safonol) a chwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol. O'r tabl, mae'n amlwg bod cwsmeriaid sy'n dewis talu ag arian parod neu siec yn gallu talu oddeutu £100 yn fwy na phobl sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol.

*Tabl 1: Prisiau ynni Cymru ar gyfartaledd (prisiau'n cynnwys TAW)*

| Defynyddiwr Canolig / Cyfradd Safonol | Nwy | Trydan | Nwy a Thrydan |
|---|---|---|---|
| Debyd Uniongyrchol (DU) | £749 | £431 | £1,148 |
| Credyd Safonol (CS) | £798 | £462 | £1,245 |
| MesuryddionRhagdalu (MRh) | £805 | £454 | £1,255 |
| Gwahaniaeth MRh – DU (Cymru) | £56 | £23 | £107 |
| Gwahaniaeth MRh – DU (Prydain) | £47 | £25 | £99 |

NB: *Ar gyfartaledd mae pris trydan yn rhatach ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu nag ydyw ar gyfer cwsmeriaid sy'n talu eu biliau bob chwarter. Y rheswm am hynny yw'r ffaith bod pob un o'r prif gyflenwyr ar wahân i Scottish Power wedi sicrhau bod eu tariffau trydan ar gyfer y dulliau talu hyn yn gyfartal, ac mae Scottish Power yn codi llai ar gwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu na chwsmeriaid sy'n talu biliau bob chwarter.*

*Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru (ar 19 Awst 2009)*

"Rwy'n gwybod fy mod i'n talu mwy. Dwi ddim yn hoffi hynny, ond rwy'n gwybod beth rwy'n ei dalu a phryd." ***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

"Pan fydd yr arian wedi dod i ben, d'ych chi ddim yn defnyddio'r ffôn symudol. Roedd gen i gontract, ac roedd y biliau'n mynd yn uwch ac yn uwch. Felly, fe wnes i newid nôl. Nawr rwy'n gwybod faint rwy'n ei wario." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Mae talu budd-daliadau'n syth i mewn i gyfrifon banc wedi helpu i leihau nifer yr unigolion sydd heb gyfrif banc ar draws y DU. Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi cadarnhau nad yw bod â chyfrif banc yn ddigon i beri i lawer o ddefnyddwyr sydd ar incwm isel ddechrau defnyddio'r ystod lawn o gyfleusterau sydd ar gael. Dau o'r prif ffactorau sy'n gwneud iddynt fyw ar arian parod yw'r angen i gadw rheolaeth ar eu harian a'r ofn o fynd i ddyled.

Mae pobl yn teimlo'n ddryslyd ac yn ddrwgdybus ynghylch taliadau debyd uniongyrchol, ac oni eir i'r afael â'r materion hynny'n effeithiol bydd llawer o ddefnyddwyr yn parhau i ffafrio talu am nwyddau a gwasanaethau ag arian parod, heb boeni am y ffaith eu bod yn talu mwy o ganlyniad i hynny mewn rhai sefyllfaoedd.

Efallai y byddai rhai defnyddwyr yn fwy parod i ddefnyddio cyfrifon banc pe baent yn cael eu cynnig gan ddarparwyr eraill yn y trydydd sector, megis undebau credyd neu Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol, neu sefydliadau eraill yr ymddiriedir ynddynt, megis Swyddfa'r Post.

## Argymhellion:

- Dylai banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd sy'n darparu cyfleusterau cyfrifon cyfredol:
  - ddarparu cymorth wyneb-yn-wyneb i'r sawl sy'n agor cyfrif banc am y tro cyntaf, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sut y mae cyfleusterau debyd uniongyrchol yn gweithio, sut y mae pennu dyddiadau talu, a beth yw'r Warant Debyd Uniongyrchol;
  - cynnwys 'clustog' o £10 yn rhad ac am ddim yn eu cyfrifon banc sylfaenol, er mwyn caniatáu ar gyfer rhywfaint o fwlch rhwng yr adeg y bydd arian yn cael ei dalu i mewn a'r adeg y bydd yn cael ei gymryd allan o'r cyfrif, heb fod hynny'n arwain at daliadau ychwanegol (ar hyn o bryd, mae llai nag un o bob tri banc a chymdeithas adeiladu'n cynnig cyfleuster o'r fath);
  - datblygu ffyrdd arloesol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am drafodion eu cyfrif (e.e. drwy negeseuon testun) i'w helpu i oresgyn eu hofnau ynghylch colli rheolaeth;
  - archwilio trefniadau posibl eraill ar gyfer taliadau electronig er mwyn lleddfu rhai o'r ofnau sy'n gysylltiedig â thaliadau debyd uniongyrchol (e.e. creu is-gyfrif ar gyfer talu biliau'n unig, fel yr awgrymir dan gynnig 'Saving from Poverty'[9]).
- Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU weithio gyda'r diwydiant bancio i ddatblygu gallu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ariannol, megis undebau credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol a Swyddfa'r Post, fel y gallant gynnig gwasanaethau cyfrifon banc sy'n briodol i anghenion ac amgylchiadau pobl sy'n byw ar incwm isel.

[9] Cael dau gyfrif sy'n gysylltiedig â'i gilydd i bob pwrpas: un ar gyfer talu biliau ac un ar gyfer arian parod/treuliau eraill. I gael rhagor o wybodaeth, gweler www.savingfrompoverty.org.uk.

# Cost cael gafael ar arian

Yn gyffredinol nid oedd neb a gymerodd ran yn ein hymchwil yn cael trafferth cael gafael ar eu harian, ac fel rheol roeddent yn gwneud hynny drwy beiriant arian y gellir ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim neu drwy ei gael yn syth o Swyddfa'r Post.

I rai, y peiriant mwyaf cyfleus i'w cartref oedd peiriant nad oedd modd ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim. Yn gyffredinol, byddent yn tynnu llai o arian nag a fwriadwyd allan, os oedd yn rhaid iddynt ddefnyddio'r cyfleuster hwnnw, er mwyn cymryd y ffi i ystyriaeth a sicrhau nad oeddent yn gordynnu arian yn annisgwyl. Gan amlaf, fodd bynnag, byddent yn teithio ymhellach i ddod o hyd i beiriant yr oedd modd ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim.

"Ffioedd rhai ohonynt yw'r broblem. Mewn rhai siopau, rydych yn talu £1.50 neu £1.75. Dwi ddim yn eu defnyddio nhw. Bydda i'n mynd i'r dre."

***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

"Rhaid i chi dynnu llai o arian allan am eu bod nhw'n codi ffi arnoch chi."

***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Mae ymchwil arall gan Lais Defnyddwyr Cymru[10] yn dangos bod effaith y rhaglen ddiweddar o gau Swyddfeydd Post[11] ar rai cymunedau ar draws Cymru'n golygu bod y sawl sy'n dibynnu ar Swyddfa'r Post i gael gafael ar eu harian (neu dalu biliau) naill ai'n gorfod teithio ymhellach i gyrraedd swyddfa bost arall neu'n gorfod dibynnu'n fwy helaeth ar ewyllys da perthnasau neu gymdogion i gyrraedd y gwasanaethau hynny.

Gall cael gafael ar arian yn rhad ac am ddim fod yn arbennig o anodd hefyd mewn ardaloedd gwledig. Dangosodd arolwg diweddar o drigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ar draws Cymru bod 8% o'r rheiny sydd ar incwm isel yn dweud eu bod nhw'n cael trafferth dod o hyd i beiriant arian[12].

Teimlai mwyafrif y bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil bod gorfod talu am y fraint o gael gafael ar eu harian eu hunain yn annheg tu hwnt.

Mae oes y siec yn dirwyn i ben wrth i nifer gynyddol o adwerthwyr mawr ddechrau gwrthod derbyn taliadau â siec. Ychydig iawn o'r bobl y buom yn siarad â nhw a ddywedodd eu bod nhw'n ysgrifennu sieciau erbyn hyn (roedd gan lawer ohonynt gyfrifon heb lyfrau siec), ond roedd rhai ohonynt wedi cael profiad uniongyrchol o ddefnyddio cyfleusterau newid sieciau. Yn gyffredinol, mae cost clirio siec yn syth drwy ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn cyfateb i oddeutu 10%, er y gall fod yn uwch. Roedd y rheiny a oedd yn ymwybodol o wasanaethau o'r fath yn gwybod yn gyffredinol eu bod yn ddrud i'w defnyddio, ond roedd y sawl a oedd yn eu defnyddio'n barod i dalu'r tâl os oedd hynny'n golygu bod modd iddynt gael gafael ar eu harian yn gynt.

[10] I'w gyhoeddi cyn hir

[11] Dan y Rhaglen Newid Rhwydwaith ddiweddar caewyd 150 o swyddfeydd post yng Nghymru, a disodlwyd 50 arall gan wasanaethau cymunedol (gallai'r rhain fod yn rhan o wasanaeth a ddarperir mewn man arall megis siop bentref, neuadd gymunedol neu fan deithiol).

[12] 'Ymdopi â Mynediad i Wasanaethau: Adroddiad Ymchwil 12', Arsyllfa Wledig Cymru (2007)

"Maent yn iawn os oes angen yr arian arnoch yn syth, ac os na allwch chi aros pum diwrnod i'r siec gael ei chlirio." ***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

Nid oedd y gallu i symud o le i le neu ddefnyddio trafnidiaeth yn broblem i neb yn yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, dylid sylweddoli'n llawn beth yw'r problemau ymarferol a'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio i beiriant arian y gellir ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim, ac mae angen ystyried y problemau hynny'n rhan o oblygiadau cymdeithasol ehangach lleoliad peiriannau o'r fath. Gall lleoliad peiriannau arian effeithio'n sylweddol ar y rheiny sy'n byw ar swm cyfyngedig o arian neu sydd â gallu cyfyngedig i symud o le i le.

Rydym yn croesawu'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad, LINK (y darparwr rhwydwaith peiriannau arian) a Bank of Ireland/Post Office Ltd, i wella mynediad i beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Dan strategaeth LINK, bwriedir gosod bron i 200 o beiriannau newydd mewn 37 o ardaloedd ar draws Cymru[13] – er nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin ag ardaloedd gwledig Gwynedd, Ceredigion a Sir Fynwy.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan LINK ym mis Awst 2009, roedd 113 o beiriannau wedi dechrau gweithio, roedd 5 dan gontract ac roedd 80 yn parhau i fod heb eu gosod. Er bod y datblygiadau hyn yn dderbyniol iawn, mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar eu harian yn rhad ac am ddim ac yn hawdd. Nodwyd bod anawsterau cynllunio a phryderon ynghylch diogelwch cymunedol yn atal camau gweithredu rhag cael eu cymryd mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, bydd rhai pobl leol efallai'n gwrthwynebu cael peiriant oherwydd pryderon y gallai fod yn rhwystr ar lwybrau cerddwyr neu y gallai'r peiriant a/neu'i ddefnyddwyr fod yn darged i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ladron. Mae angen mynd i'r afael â materion o'r fath ar frys.

## Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad:
  - sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau heddlu'n deall yn well yr angen am beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim mewn cymunedau penodol, oherwydd mae angen pennu lleoliadau addas o hyd ar gyfer 40% o'r peiriannau sydd yn yr arfaeth dan Strategaeth LINK;
  - adolygu pa mor dda y mae cymunedau gwledig yn cael eu gwasanaethu dan y rhaglenni presennol i gynyddu mynediad i beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim, yn enwedig yn dilyn y rhaglen cau Swyddfeydd Post.
- Dylai awdurdodau lleol, heddluoedd lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol gydweithio'n adeiladol â mudiadau cymunedol, adwerthwyr lleol ac eraill sy'n gobeithio gosod peiriant arian ar eu safleoedd, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, er mwyn eu helpu i oresgyn unrhyw beth a allai rwystro lleoli peiriant yn eu hardal.

[13] Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth y DU, grwpiau defnyddwyr a Phwyllgor Dethol y Trysorlys, mae LINK a'i Aelodau wedi creu rhaglen i hybu gwaith gosod peiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim mewn ardaloedd lle ceir mynediad cyfyngedig i arian yn rhad ac am ddim. O blith y 600 o beiriannau arian sydd eu hangen ar draws Cymru a Lloegr, disgwylir i 198 gael eu lleoli yng Nghymru os gellir dod o hyd i safleoedd addas iddynt. Mae'r ardaloedd y dylid eu targedu wedi'u nodi gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005.

# Benthyca neu beidio â benthyca?

Roedd dymuniad i ddefnyddio arian parod, a phryderon cysylltiedig ynghylch mynd i ddyled, yn tynnu sylw at y pwys yr oedd sawl un o'r rhai a gymerodd ran yn ein hastudiaeth yn ei roi ar fyw heb wario mwy na'u hincwm.

Teimlai bron pawb a gymerodd ran yn ein hymchwil ei bod yn bwysig neilltuo arian ar gyfer gwahanol bethau, er bod llawer yn cyfaddef bod gwneud hynny'n anodd weithiau. Teimlai llawer o ymatebwyr, y rhieni sengl iau'n bennaf, y byddai cael mwy o gyngor ynghylch dulliau effeithiol o neilltuo arian o fudd iddynt.

"Byddwn yn hoffi cael help i neilltuo arian ar gyfer pethau – dwi ddim yn un dda am gadw trefn ar arian." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Bydda i'n gwneud hynny ar nos Lun, oherwydd rwy'n cael fy nhalu ar ddydd Mawrth. Bydda i'n gwneud rhestr o beth sy'n rhaid i mi ei dalu, a beth sydd gennyf ar ôl i fynd i siopa. Fydda i byth yn cymryd llawer o sylw o'r symiau, ond rwy'n llawn bwriadau da." ***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Roedd talu am nwyddau a gwasanaethau hanfodol, megis bwyd, rhent, nwy a thrydan yn tueddu i gael blaenoriaeth. Roedd pwysau i ddarparu ar gyfer eu plant a cheisio sicrhau eu bod nhw'n cael beth yr oedd arnynt ei eisiau a'i angen yn amlwg hefyd. Dywedodd llawer o bobl y byddai'n well ganddynt fynd heb rywbeth eu hunain na dweud 'na' wrth eu plant.

Roedd mwyafrif y bobl yn ein grwpiau'n awyddus iawn i osgoi mynd i ddyled, ac roeddent yn poeni ynghylch methu cadw at drefniadau ad-dalu arian. Roedd llawer wedi cael trafferth ymdopi â phroblem yn ymwneud â dyled yn y gorffennol, ac roedd un neu ddau wedi mynd yn fethdalwyr o'r herwydd.

Er gwaethaf hynny, dywedodd y mwyafrif nad oedd ganddynt unrhyw ddewis o hyd ond benthyca'n achlysurol, hyd yn oed er mwyn talu biliau cyfleustodau, a hynny oherwydd realiti byw ar incwm isel, problemau o ran llif arian a chostau annisgwyl. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o bobl yn benthyca arian i dalu am eitemau hanfodol pob dydd (soniwyd am beiriannau golchi dillad, dodrefn a cheir) yn hytrach na phethau a ymddangosai'n fwy diangen, megis gwyliau a chyfleoedd i fynd allan.

"Pe bai angen byddwn yn benthyca arian i dalu am nwy a thrydan, ond fyddwn i ddim yn benthyca arian i fynd allan." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Benthycais i arian i dalu am fy nghar, gan ddefnyddio fy ngherdyn credyd. Dwi ddim yn gwybod sut bydda i'n talu amdano." ***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

“Mae fy mhlant byth a hefyd yn gofyn am rywbeth neu’i gilydd... Rydyn ni’n colli cwsg oherwydd arian”
(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)

O ran pwy y byddai pobl yn troi atynt pe bai angen mwy o arian arnynt i dalu am eitem ddrud megis teledu neu beiriant golchi dillad, roedd yn amlwg bod llawer yn dibynnu i raddau helaeth iawn yn y lle cyntaf ar aelodau eraill y teulu i roi credyd iddynt, yn enwedig rhieni sengl a oedd yn iau.

Y prif resymau am hynny oedd y ffaith eu bod nhw am osgoi talu llog, a'r ffaith y gallent ad-dalu'r arian â thaliadau llai'n wythnosol. Yn ogystal, roeddent yn teimlo y byddent yn llai tebygol o fethu talu'r taliadau hynny. Rydym yn bwriadu archwilio'r effaith a gaiff hynny ar aelodau'r teulu ehangach wedyn a'u gallu i reoli eu costau byw pob dydd eu hunain, mewn gwaith ymchwil arall yn y dyfodol.

"Bu'n rhaid i mi fenthyca arian gan fy mam i brynu peiriant golchi dillad, ond roedd yn rhaid i mi dalu'r arian yn ôl o hyd. Arian gwyliau fy mam oedd e'."

***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

"Nid oes unrhyw log ar arian y byddwch chi'n ei fenthyca gan eich mam a'ch tad, a phe baech chi'n methu fforddio talu mwy na £5 yn ôl bob wythnos bydden nhw'n derbyn hynny." ***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Yn hytrach na benthyca, dywedodd rhai pobl y byddent yn ceisio cynilo arian pe bai angen iddynt brynu eitemau o'r fath, fel y gallent dalu amdanynt ag arian parod, ond pe na bai unrhyw ddewis arall ganddynt, dywedodd sawl un arall y byddent yn prynu'r eitem o gatalog neu adwerthwr credyd (megis Brighthouse neu Buy as you View). Roedd hynny'n arbennig o wir yn achos yr ymatebwyr iau.

Yn ogystal, roedd llawer o bobl yn ein hastudiaeth yn ei chael hi'n anodd cael credyd o ffynonellau prif-ffrwd megis banciau a chymdeithasau adeiladu (yn bennaf oherwydd lefel eu hincwm neu hanes gwael o ran credyd). Fodd bynnag, hyd yn oed os nad oedd cael credyd trwy'r rhain yn broblem, roedd y ffaith bod ad-daliadau misol yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau a ddarperir gan y cwmnïau hyn yn golygu na fyddai'r bobl dan sylw'n medru eu fforddio am fod yn rhaid iddynt ad-dalu'r benthyciad bob mis.

"O gofio'r arian yr wyf yn ei ennill, fyddwn i ddim yn gallu benthyca o fanc. Fyddwn i ddim yn gallu fforddio talu'r arian yn ôl."

***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Dim ond ambell un (pobl hŷn a gymerodd ran yn ein hymchwil yn bennaf) oedd wedi defnyddio cardiau credyd neu wedi gofyn i fanc am fenthyciad. Roedd cael credyd yn eithaf hawdd i'r lleiafrif hwn, er eu bod yn teimlo'n amlach na pheidio bod benthycwyr yn annog pobl i fenthyca mwy nag y gallent fforddio'i ad-dalu.

"Rydw i byth a hefyd yn cael trafferthion, ond maen nhw'n dal i ddweud 'benthycwch arian, benthycwch arian', ond sut mae disgwyl i fi ei dalu'n ôl?"

***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd llawer o bobl wedi cael profiad personol o ddefnyddio cwmnïau credyd cartref, siopau credyd a gwasanaethau adwerthu sy'n defnyddio mesuryddion arian (e.e. Provident, Brighthouse, Buy As You View). Cafodd y sawl a gymerodd ran yn ein hymchwil gyfle i weld enghreifftiau o'r gwahaniaethau o ran cost rhwng talu am nwyddau a gwasanaethau penodol gan ddefnyddio gwahanol fathau o ddulliau talu neu adwerthwyr. Er enghraifft, byddai prynu popty £159.99 o Argos fel rheol yn costio £405 o Brighthouse (o dalu amdano dros gyfnod o 125 wythnos) - gwahaniaeth o £245.01 neu 153%[14].

Nid oedd neb yn synnu o weld cymaint drytach oedd darparwyr credyd drud – roedd geiriau megis 'twyllodrus' ac 'afresymol' eisoes wedi'u defnyddio'n ddigymell i ddisgrifio rhai cwmnïau. Fodd bynnag, cyn cael cyfle i weld y manylion, roedd llawer yn ei chael hi'n anodd asesu graddau'r gwahaniaeth rhwng y rhain a ffurfiau mwy cyffredin o gredyd.

Roedd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn ein hastudiaeth yn beirniadu cwmnïau tebyg i'r rhain yn hallt. Aeth rhai mor bell â dweud na ddylai fod ganddynt hawl i godi'r cyfraddau llog y maent yn eu codi. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn credu nad oedd gan bobl yn eu sefyllfa nhw fawr o ddewis yn aml ond defnyddio'r math hwn o gredyd, oherwydd diffyg ymddangosiadol unrhyw opsiynau fforddiadwy eraill, ynghyd â'r ffaith nad yw rhai o'r darparwyr hyn yn cynnal archwiliadau credyd[15].

"Mae'r hyn yr ydych yn ei dalu'n ôl yn nes at ddwbl yr hyn yr ydych yn ei fenthyca. Mae [cwmni credyd cartref adnabyddus] yn dod o amgylch adeg y Nadolig pan mae dyn yn fwyaf tebygol o ddweud ie." ***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Cafodd fy ngwraig soffa a dwy stôl gan [siop gredyd adnabyddus], ac fe gostiodd bum mil i mi." ***(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)***

"Os yw eich peiriant golchi'n torri, mae angen un arnoch chi yn y fan a'r lle, allwch chi ddim aros i gynilo. Os ydych chi yn y sefyllfa honno, fe ewch chi i [siop gredyd adnabyddus] a'i brynu." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

[14] Tynnwyd yr enghraifft hon o 'The Poverty Premium: How poor households pay more for essential goods and services', papur briffio a baratowyd gan Achub y Plant a'r Gymdeithas Lles Teuluoedd (2007)

[15] Bu'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau pobl at fenthycwyr masnachol a'u profiad ohonynt. Cafodd benthycwyr yn y trydydd sector eu trafod fel opsiynau fforddiadwy eraill posibl, ond ni chymerodd unrhyw rai a oedd yn aelodau o undebau credyd ran yn yr ymchwil. Nid oedd benthyciadau/grantiau gan y Llywodraeth, megis y Gronfa Gymdeithasol, yn rhan o'r astudiaeth hon chwaith.

Nid yw'n syndod eu bod i gyd yn ymwybodol o fenthycwyr didrwydded (loan sharks) ond dim ond rhai ohonynt oedd â phrofiad personol o'u defnyddio. Roedd y mwyafrif yn teimlo y dylid eu hosgoi ar bob cyfrif, ac roedd yn amlwg bod ganddynt enw drwg am godi ofn ar bobl.

"Rwy am gadw fy nghartref! Os dechreuwch chi ymwneud â nhw, mae hi wedi canu arnoch chi." ***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

"Wna i ddim hyd yn oed ystyried y peth, ond rwy'n adnabod pobl sydd wedi."

***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

Mae sefydliadau defnyddwyr (megis Llais Defnyddwyr Cymru) ac eraill yn pryderu y bydd mwy o bobl yn cael eu gorfodi i ddefnyddio benthycwyr anghyfreithlon wrth i effaith y dirywiad economaidd daro pobl ac wrth i ddarparwyr credyd (gan gynnwys cwmnïau credyd cartref) ddechrau tynhau eu meini prawf benthyca.

Deddf Credyd i Ddefnyddwyr 1974 sy'n llywodraethu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer credyd defnyddwyr yn y DU yn bennaf. Ers hynny, mae diwygiadau i'r Ddeddf yn 2006 wedi caniatáu i'r Swyddfa Masnachu Teg – sy'n rheoleiddio maes credyd defnyddwyr - gymryd camau gweithredu priodol os ystyrir bod busnes credyd defnyddwyr yn benthyca'n anghyfrifol. Mae arweiniad arfaethedig y Swyddfa Masnachu Teg i gredydwyr ar y mater hwn i'w groesawu'n fawr ac mae'n helpu i egluro arferion busnes na fydd y Swyddfa'n eu hystyried yn dderbyniol. Mae'r canllawiau'n cynnwys disgwyliadau i gredydwyr beidio ag annog benthycwyr i gynyddu eu dyled bresennol pan fyddant efallai'n wynebu anawsterau i glirio'u dyledion, peidio â thargedu benthycwyr a allai fod yn fregus iawn â chynnyrch credyd amhriodol, a sicrhau bod yr holl wybodaeth/dogfennau a ddarperir i fenthycwyr yn cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a dealladwy. Mae'r gofynion hyn yn debygol o gael eu cryfhau pan ddaw'r Gyfarwyddeb Credyd Defnyddwyr i rym ym mis Mehefin 2010. Er y gobeithir y bydd datblygiadau o'r fath o fudd i ddefnyddwyr, ceir pryder y gallent gyfyngu ar allu rhai i gael gafael ar gredyd fforddiadwy.

Ar gyfer y bobl yn ein grwpiau ni, roedd y gallu i fenthyca arian yn syth ac ad-dalu benthyciadau mewn rhandaliadau bach wythnosol yn ffactorau cyffredin ar gyfer yr holl ffynonellau credyd a oedd yn cael eu ffafrio, boed hynny drwy fenthyca gan deulu, drwy gatalog neu adwerthwr credyd. Roedd y mwyafrif llethol yn ystyried y dull hwn o fenthyca'n fwy fforddiadwy yn y tymor byr hyd yn oed pe baent yn talu mwy am yr eitem dan sylw yn y pen draw (yn achos darparwyr credyd drud). Nid yw'r math hwn o ymddygiad gan ddefnyddwyr yn anghyffredin mewn marchnadoedd ariannol pan fo mantais bresennol gweithred yn cael ei hystyried yn fwy nag unrhyw gostau a delir yn y dyfodol.

Tra bo'r mwyafrif yn sylweddoli bod defnyddio cwmnïau credyd cartref neu adwerthwyr credyd yn ddrud, roedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ynghylch graddau'r gwahaniaeth o ran cost rhwng talu am nwyddau fel hyn a dulliau eraill o dalu, gan gynnwys benthyca gan fenthycwyr mwy fforddiadwy yn y trydydd sector.

Roedd cadw rheolaeth ar eu harian a gallu byw heb wario mwy na'u hincwm yn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro yn ystod y trafodaethau hefyd. Er ein bod wedi gweld datblygiadau sylweddol i wella gallu ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar lefel Cymru ac ar lefel y DU, byddai llawer o'r rhai a gymerodd ran yn ein hymchwil yn croesawu unrhyw gymorth ychwanegol i'w helpu i reoli eu harian yn well.

## Argymhellion:

- Dylai'r rhai sy'n cyllido gwaith gallu ariannol, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, y diwydiant gwasanaethau ariannol ac eraill sicrhau bod digon o gyllid cynaliadwy ar gael er mwyn i waith gallu ariannol barhau ar lefel gymunedol, yn enwedig yn ystod cyfnod sydd mor ansicr o safbwynt ariannol;

- Dylai sefydliadau cymunedol megis undebau credyd, canolfannau cyngor ar bopeth a chymdeithasau tai, archwilio cyfleoedd i ymestyn eu gwaith gallu ariannol drwy'r broses o weithredu gwasanaeth Arweiniad Ariannol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, 'Moneymadeclear' yn genedlaethol, a fydd yn dechrau yn nhymor y gwanwyn 2010;
  - i ddechrau, dylai'r ymdrechion dargedu grwpiau penodol (e.e. rhieni sengl, teuluoedd ar incwm isel) sy'n debygol o gael y budd mwyaf o gyngor a chymorth diduedd, wyneb-yn-wyneb, rhad ac am ddim mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag arian (gan gynnwys rheoli arian, manteision/anfanteision gwahanol ddulliau o dalu a gwahanol fathau o fenthyciadau).

- Dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gydweithio i sicrhau bod Cymru'n cael cyfran deg o'r cyllid sydd ar gael dan y rhaglen 'Moneymadeclear'.

- Yn rhan o'u polisïau cynhwysiant ariannol, dylai Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU fonitro'n ofalus yr effaith y mae gweithredu'r Gyfarwyddeb Credyd Defnyddwyr yn ei chael ar allu defnyddwyr i gael gafael ar gredyd fforddiadwy, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel neu incwm cyfyngedig lle mae cael gafael ar gredyd yn gallu bod yn broblem yn barod.

# Opsiwn arall fforddiadwy

I lawer o bobl sydd ar incwm is gall cael gafael ar gredyd fforddiadwy fod yn anodd, yn enwedig pan fo angen iddynt fenthyca symiau bach dros gyfnod byr yn aml.

Mae Cymdeithas Bancio Prydain wedi cydnabod nad yw banciau byth yn debygol o ddarparu arian prif-ffrwd i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr[16], felly benthycwyr y trydydd sector, megis undebau credyd a Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDC), yw'r prif ateb ar hyn o bryd ar gyfer ymestyn credyd fforddiadwy i ddefnyddwyr sydd ar incwm isel.

Mae'r ddau fath o sefydliad yn sefydliadau di-elw ac mae ganddynt nodau tebyg, ond tra bo undebau credyd yn gwmnïau ariannol cydweithredol, caiff SCDC eu sefydlu'n gwmnïau buddiannau cymunedol fel arfer.

Mae cyfyngiadau cyfreithiol ar swm y llog y gall undebau credyd ei godi ar eu benthyciadau (ni all y gyfradd ganrannol flynyddol (APR) fod yn fwy na 26.8%). Fodd bynnag, mae gan SCDC fwy o hyblygrwydd wrth bennu cyfraddau llog. Gall yr APR fod yn nes at 50% sy'n golygu bod eu gallu i gynnig benthyciadau i gwsmeriaid sydd â 'risg ychydig yn uwch' yn fwy. Er hynny, mae angen iddynt ystyried addasrwydd unrhyw fenthycwyr arfaethedig i gael credyd yn ofalus o hyd, yn yr un modd ag unrhyw achos o fenthyca.

*Tabl 2: Costau cymharol benthyciad o £300 (Awst 2009)*

| Darparwr credyd | Swm a ad-dalwyd |
|---|---|
| Undeb Credyd nodweddiadol (ar ôl cynilo am o leiaf 8 wythnos o flaen llaw)<br>*12.7% APR, yn cael ei dalu dros 52 wythnos* | £318.64 |
| Undebau Credyd (yn cynnig benthyciadau parod)<br>*26.8% APR, yn cael ei dalu dros 52 wythnos* | £337.99 |
| Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (yn cynnig benthyciadau parod)<br>*47.75% APR, yn cael ei dalu dros 50 wythnos* | £357.50 |
| Cwmni credyd cartref nodweddiadol (casglu o gartref)<br>*254.5% APR, yn cael ei dalu dros 50 wythnos* | £525 |
| Gwahaniaeth (rhwng y rhataf a'r drutaf) | £206.36 neu 64.8% |

Ar hyn o bryd, mae 29 Undeb Credyd yng Nghymru yn gweithredu ym mhob ardal awdurdod lleol, ac mae 2 SCDC yn cael eu datblygu – un ym Mhowys (sy'n rhan o Bartneriaeth Bancio Cymunedol Robert Owen) a 'Moneyline Cymru' (sy'n cael ei sefydlu drwy Gartrefi Cymunedol Cymru)[17], â chynlluniau peilot ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.

[16] 'Financial Inclusion: Access to advice, banking and credit', BBA ac APACS (Tachwedd 2005)
[17] I'w lansio ym mis Hydref 2009

Ers sawl blwyddyn, mae undebau credyd ledled Cymru wedi bod yn ceisio torri'r cylch o ddibynnu ar gredyd cartref sy'n bodoli mewn sawl cymuned difreintiedig, ond nid yw hon yn dasg hawdd. Clywsom yn ystod yr astudiaeth hon fod cynrychiolwyr o gwmnïau credyd cartref yn aml yn adnabyddus yn y gymuned leol, â pherthnasoedd hirsefydlog sydd wedi'u datblygu dros genedlaethau - felly mae newid y diwylliant hwn o reoli arian yn dipyn o her. Yn ogystal, mae'r perygl o fethu ad-dalu'r benthyciad yn uwch o lawer ymhlith pobl sydd ag incwm wythnosol isel neu gyfyngedig. Yn y farchnad credyd cartref, os yw cwsmeriaid yn talu chwech allan o ddeg ad-daliad yn brydlon, fe'u hystyrir yn 'dalwyr da'. Mae gallu benthycwyr y trydydd sector i amsugno dyledion drwg wedi'i gyfyngu'n ddifrifol sy'n golygu bod cystadlu ar yr un sail â'r diwydiant credyd cartref bron yn amhosibl mewn llawer o gymunedau ac yn anghynaliadwy ar y gorau.

I roi hyn yn ei gyd-destun, daeth adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree[18] i'r casgliad y byddai angen i fusnes credyd cartref di-elw godi cyfradd ganrannol flynyddol (APR) o 123% i gystadlu ar yr un sail â chwmnïau credyd cartref masnachol. Byddai ar y model busnes arfaethedig angen buddsoddiad o £18 miliwn hefyd (drwy gymhorthdal cyhoeddus neu fuddsoddiad busnes cymdeithasol) er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy'n ariannol - gan godi i gymhorthdal o £90 miliwn dros ddeng mlynedd pe bai'r gyfradd ganrannol flynyddol (APR) yn gostwng i 100%.

Daeth ein hymchwil i'r casgliad bod ymwybyddiaeth o undebau credyd hefyd yn isel at ei gilydd[19] ac roedd gwybodaeth gyffredinol y cyfranogwyr ynghylch sut y maent yn gweithio yn eithaf cyfyngedig. Roedd gan y rhai a gymerodd ran yn ein hymchwil a oedd wedi clywed amdanynt (ar dafod leferydd gan mwyaf) argraffiadau cadarnhaol ar y cyfan h.y. ystyriwyd eu bod yn ddibynadwy a'u bod yn cynnig gwasanaeth teg fel rheol 'i bobl fel nhw' unwaith i rywun gynilo am ychydig.

Pan eglurwyd y syniad sy'n sail i undebau credyd wrthynt, roedd gan lawer ohonynt ddiddordeb mewn dod i wybod mwy, yn enwedig fel modd o gynilo ar gyfer y Nadolig ac achlysuron arbennig.

"Hoffwn i wneud hynny. Mae i fod yn dda, dywedodd fy mam-gu wrtha i amdano." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Mae yna un ar draws y ffordd, rwy' wedi clywed amdano ond dwi ddim wedi ei ddefnyddio. Roeddwn i'n ystyried ei ddefnyddio cyn y Nadolig, ond ches i ddim mo'r cyfle. Mae clwb cynilo yno." ***(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)***

[18] 'Is a not-for-profit home credit business feasible?' Sefydliad Joseph Rowntree (Mawrth 2009)
[19] Dylid nodi bod proses sgrinio wedi'i chynnal wrth recriwtio er mwyn sicrhau nad oedd pobl a oedd yn aelodau o Undebau Credyd yn cael eu cynnwys yn yr ymchwil

“Mae’n dibynnu pa mor isel yw’r llog, ei dalu’n ôl yw’r broblem.”

*(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)*

Mae’r dirwasgiad presennol, wedi’i gyfuno â newidiadau o ran polisi a deddfwriaeth, yn debygol o olygu y bydd y dirwedd gredyd yn newid yn eithaf sylweddol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Yn y dyfodol agos, mae mwy o ddefnyddwyr yn debygol o gael trafferth cadw i fyny â’u hymrwymiadau credyd ac mae’n fwy tebygol y bydd pobl yn methu ad-dalu benthyciadau. Mae hyn yn cyflwyno her benodol i fenthycwyr y trydydd sector, yn enwedig undebau credyd gan fod cyfyngiadau ar faint o log y gallant ei godi ar eu benthyciadau. Fodd bynnag, mae’r newidiadau’n golygu bod gwir gyfle i’r benthycwyr hyn fanteisio ar y diddordeb amlwg yn eu gwasanaethau hefyd drwy wella gweithgareddau hyrwyddo a thrwy feithrin cysylltiadau cryfach â sefydliadau eraill.

## Argymhellion:

- Wrth ddatblygu ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Undebau Credyd, dylai Llywodraeth y Cynulliad:
  - weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru, Undebau Credyd unigol a chynrychiolwyr cymunedol y gellir ymddiried ynddynt, i ddatblygu ymgyrch farchnata sydd wedi’i thargedu ac sydd â phroffil uchel, i hyrwyddo’r gwasanaethau y mae Undebau Credyd yn eu cynnig i’r rhai a fyddai’n cael y budd mwyaf o’u gwasanaethau;
  - cynnwys camau gweithredu i feithrin cysylltiadau gwell rhwng undebau credyd a phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys cyflogwyr lleol, swyddfeydd post, canolfannau cyngor ar bopeth a chymdeithasau tai (yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â’r SCDC newydd, ‘Moneyline Cymru’);
  - hwyluso’r berthynas rhwng Undebau Credyd unigol i’w galluogi i rannu adnoddau ac felly cynyddu’r ystod o wasanaethau ariannol y gallant eu cynnig e.e. cyfrifon cyfredol undebau credyd, lle bo hynny o fantais.
- Yn yr un modd, dylai Moneyline Cymru ddatblygu partneriaethau ag undebau credyd a darparwyr cyngor yn yr ardaloedd peilot i gynyddu’r ystod o wasanaethau ariannol y maent yn gallu eu cynnig i’w cwsmeriaid, megis cyngor ar gynilion a dyled.


“Roedd yswiriant gen i o’r blaen, ond dechreuodd fynd yn ddrud. Yn bendant, byddwn yn ei gael eto.”
(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)

# Rhwyd ddiogelwch ariannol

Gall canlyniadau dioddef lladrad neu ddioddef tân neu lifogydd heb yswiriant fod yn drychinebus.

Gofynnwyd i bobl hefyd sut y byddant yn amddiffyn eu hunain yn ariannol rhag yr adegau hynny pan all, a phan fo, pethau'n mynd o'u lle. Roedd mwyafrif y bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil yn cytuno ei bod yn bwysig cael yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref. I rai, roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i ddioddef lladrad yn y gorffennol ac roeddent wedi mynd ati i drefnu yswiriant ers hynny. I eraill, y gost oedd y ffactor mwyaf a oedd yn eu rhwystro rhag cael yswiriant. Mae cyfraddau troseddu lleol, prisiau eiddo cyfartalog, a'r tebygrwydd o lifogydd neu ymsuddiant i gyd yn gallu cael effaith ar bremiymau yswiriant.

"Oes mae gen i yswiriant. Dwi wedi'i gweld hi o'r ochr arall, doedd gen i ddim yswiriant a chollais bopeth." ***(Merthyr Tudful, 18-30 oed, rhiant sengl)***

"Na does gen i ddim yswiriant, ond dylwn drefnu ei gael. Alla' i ddim ei fforddio ar hyn o bryd. Byddwn yn ei gael pe bawn i'n gallu fforddio hynny."

***(Wrecsam, 31-50 oed, pâr)***

Erbyn hyn, mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol yn cynnig cynlluniau yswiriant gyda rhent, ac mewn rhai ardaloedd, mae cyfraddau premiwm rhanbarthol wedi disodli cyfraddau mwy lleol i helpu i leihau effaith byw ar ystâd sydd â lefelau troseddu uwch. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn parhau i fod yn isel.

Yn achos llawer o gartrefi sydd ar incwm isel ymddengys bod cost ychwanegol cael yswiriant i amddiffyn eu heiddo rhag rhywbeth a allai ddigwydd efallai yn y dyfodol yn dal i fod yn ormod o'i chymharu â blaenoriaethau eraill, yn enwedig mewn cyfnod mor ansicr, hyd yn oed pan fo premiymau wedi'u gostwng ac amodau talu wythnosol wedi'u cyflwyno.

Roedd safbwyntiau tebyg yn dod i'r amlwg wrth drafod cynilion. Roedd y mwyafrif o bobl yn credu ei bod yn bwysig ceisio cynilo arian pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Roedd rhai'n ceisio cynilo at achlysuron arbennig (e.e. y Nadolig) neu roi arian i un ochr 'ar gyfer diwrnod glawog', ond er bod hybu cynilo fforddiadwy ar raddfa fach yn elfen bwysig o waith undebau credyd a swyddfeydd post, roedd pobl yn tueddu i drosglwyddo arian i aelodau eraill y teulu i'w gadw'n ddiogel ar eu rhan, yn hytrach nag agor cyfrif cynilo ffurfiol. Roedd eraill yn gweld bod realiti bywyd a byw ar incwm isel yn golygu ei bod yn amhosibl cynilo, er bod hynny'n rhywbeth yr oeddent yn awyddus i'w wneud.

"Mae fy mudd-dal plant yn cael ei dalu i gyfrif fy mam, nid i'm cyfrif i, felly alla' i ddim mo'i wario gan nad yw yn fy nghyfrif. Mae'r arian yno os bydd ei angen arnaf. Rwy'n ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau a phethau."

*(Cwmbrân, 31-50 oed, pâr)*

"Fe fyddwn pe bawn i'n gallu. Pe bai'r arian ychwanegol gen i."

*(Y Rhyl, 18-30 oed, rhiant sengl)*

Mae ein hymchwil yn dangos, er bod pobl yn cydnabod bod cael yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref a chynilo'n rheolaidd yn bwysig, i lawer o bobl, mae eu sefyllfa ariannol yn golygu bod gallu manteisio ar gynnyrch o'r fath yn cael ei ystyried yn 'foethusrwydd' i ryw raddau.

Mae cynnyrch wedi'u datblygu yn y meysydd hyn i geisio bodloni gofynion defnyddwyr sydd ar incwm isel. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i'w gwneud yn fwy deniadol ac annog pobl i fanteisio arnynt.

Fel sefydliadau y mae pobl yn ymddiried ynddynt, mae undebau credyd a swyddfeydd post mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig trefniadau cynilo mwy ffurfiol i ddefnyddwyr sydd ar incwm isel, yn ogystal â chynnig porth i ystod o wasanaethau ariannol eraill. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dweud y bydd y Porth Cynilo (sydd i'w weithredu'n genedlaethol ym mis Ebrill 2010) ar gael drwy Swyddfa'r Post.

## Argymhellion:

- Dylai darparwyr Tai Cymdeithasol sy'n cynnig cynlluniau yswiriant gyda rhent:
  - ddefnyddio addysgwyr cymheiriaid yn fwy helaeth i roi gwybodaeth i denantiaid presennol, gan sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol a mynediad parhaus i rwydweithiau cymorth priodol er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth anghywir;
  - gwneud gwaith penodol sy'n canolbwyntio ar fanteision cael yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref i annog tenantiaid newydd i fanteisio ar gynlluniau yswiriant gyda rhent yn rhan o'u 'pecyn croeso';
  - dylai'r rhai nad ydynt yn cynnig cynlluniau yswiriant gyda rhent ar hyn o bryd ystyried gwneud hynny yn rhan o strategaeth cynhwysiant ariannol ehangach.
- Dylai undebau credyd nad ydynt yn cynnig cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar hyn o bryd ystyried cynnig y gwasanaeth hwn gan ei fod yn cynnig cyfle gwych i gyflwyno pobl ifanc i fanteision cynilo ffurfiol.
- O fis Ebrill 2010, dylai undebau credyd ledled Cymru geisio bod yn ddarparwyr y Porth Cynilo hefyd gan y dylai'r cyfrif hwn, sy'n cynnig cymhelliant i gynilo, helpu i gyflwyno mwy o ddefnyddwyr sydd ar incwm isel i fanteision cynilo ffurfiol.

# Casgliad

Mae'r ymchwil hwn wedi rhoi darlun i ni o brofiadau pobl sy'n byw ar arian parod ac wedi tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n amgylchynu'r modd y mae llawer o ddefnyddwyr sydd ar incwm isel yn rhyngweithio â chynnyrch a gwasanaethau ariannol. Mewn sawl sefyllfa, mae pobl yn dewis eu heithrio eu hunain rhag manteisio ar gynnyrch ariannol penodol neu rhag eu defnyddio, yn enwedig cyfrifon banc. Yr hyn sy'n fwy pwysig i'w nodi, fodd bynnag, yw'r ffaith bod ymdeimlad o eithrio gorfodol yn amlwg mewn meysydd eraill, er enghraifft, wrth geisio cael gafael ar gredyd am bris rhesymol ac yn achos mathau eraill o gynnyrch ariannol, megis yswiriant a chynilion, mae gallu pobl i'w fforddio'n broblem wirioneddol a allai arwain at ganlyniadau trychinebus.

Mae ein hymchwil yn dangos sut y mae ystod o ffactorau'n dylanwadu ar ymddygiad pobl wrth drin arian hefyd. Roedd y prif reswm am beidio defnyddio cyfrifon banc neu am eu defnyddio mewn modd cyfyngedig yn ymwneud yn bennaf ag angen pobl i gadw rheolaeth ar eu harian. P'un ai rheidrwydd neu awydd oedd i gyfrif am hynny, roedd yn amlwg bod gan fwyafrif y cyfranogwyr agwedd 'synhwyrol' iawn at reoli arian. Mae'r rhai a gymerodd ran yn ein hymchwil yn credu bod talu ag arian parod yn eu galluogi i reoli eu harian yn fwy effeithiol.

Mae ffactorau pwysig eraill a oedd yn gwneud i bobl ddefnyddio arian parod yn ymwneud ag awydd cyffredinol i osgoi mynd i ddyled, ymddiriedaeth (neu ddiffyg ymddiriedaeth) mewn gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ariannol a chefnogaeth hollbwysig aelodau eraill y teulu.

Mae datblygu cynnyrch a gwasanaethau ariannol sy'n fwy addas i anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr sydd ar incwm isel yn elfen hollbwysig o'r agenda ynghylch cynhwysiant ariannol. Erbyn hyn, ceir ystod o gynnyrch y bwriedir iddo helpu i ddiwallu'r anghenion hynny – cyfrifon banc sylfaenol, benthyciadau a chyfrifon cyfredol undebau credyd, cynlluniau yswiriant gyda rhent, a'r Porth Cynilo i enwi dim ond rhai. Fodd bynnag, mae pob un o'r rhain wedi profi lefelau amrywiol o lwyddiant, o ran nifer y bobl sy'n manteisio arnynt a'r graddau y cânt eu defnyddio.

Mae'n debyg bod y rhesymau am hynny'n niferus ac yn amrywiol. Er mai astudiaeth fach oedd hon, ceir arwyddion sy'n awgrymu nad yw peth o'r cynnyrch sydd ar gael efallai'n diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn. Yn achos cynnyrch neu wasanaethau eraill, mae'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y maent yn gweithio neu ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r ffaith eu bod hyd yn oed yn bodoli.

Os ydym am annog defnyddwyr i ddefnyddio mwy ar gyfrifon banc, ac elwa ar gostau is talu drwy ddebyd uniongyrchol o ganlyniad i hynny, mae angen i'r diwydiant bancio ddangos mwy o ymrwymiad i hyrwyddo cyfrifon banc sylfaenol a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Er nad yw cyfrifon o'r fath yn cynnig cyfleusterau gorddrafft, mae angen gwneud trefniadau debyd uniongyrchol yn fwy hyblyg, a sicrhau bod y cyngor cywir ar gael i gefnogi hynny i wella dealltwriaeth o sut mae debyd uniongyrchol yn gweithio a'r manteision y gall eu cynnig.

Nid dim ond banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n gallu darparu gwasanaethau o'r fath. Gall rhai defnyddwyr fod yn fwy parod i ddefnyddio cyfrifon banc os oes sefydliadau eraill yn eu darparu, megis undebau credyd, swyddfeydd post neu Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (pan fyddant wedi'u sefydlu'n iawn yng Nghymru). Yn ystod ein hymchwil, roedd y ddau gyntaf yn cael eu hystyried yn ffynonellau gwybodaeth dibynadwy.

Roedd defnyddio benthycwyr cost uchel yn gyffredin ar gyfer llawer o'r bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil ac roedd canfyddiad cyffredinol nad oedd gan bobl yn eu sefyllfa nhw lawer o ddewis ond defnyddio'r darparwyr hyn. Mae'r heriau y mae darparwyr y trydydd sector yn eu hwynebu wrth geisio cystadlu â chwmnïau credyd cartref yn sylweddol ond yn yr un modd, mae'n debyg na fu amser gwell iddynt fanteisio ar y diddordeb amlwg yn eu gwasanaethau a'r angen cynyddol amdanynt. Y tu hwnt i fenthyciadau, mae darparwyr y trydydd sector mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig porth i wasanaethau ariannol eraill hefyd, gan gynnwys cyfrifon banc, cynilion, a chyngor ynghylch llythrennedd ariannol.

Ar hyn o bryd, mae llawer o waith da'n cael ei wneud ledled Cymru i hybu cynhwysiant ariannol. Gobeithir y bydd strategaeth cynhwysiant ariannol Cymru 'Mae Pawb yn Cyfrif', a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad, a'r gwaith y mae'r tîm Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol yn ei wneud yng Nghymru, yn helpu i roi cyfeiriad a chanolbwynt y mae mawr eu hangen ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'n well gan lawer o ddefnyddwyr ddefnyddio arian parod i dalu am nwyddau a gwasanaethau, a dylai cadw'r dewis hwnnw barhau i fod yn elfen bwysig o'r agenda ynghylch cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, gellid gwella'r cynnydd a wneir o ran lleihau achosion o eithrio ariannol, drwy feithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar ymddygiad pobl wrth iddynt drin arian. Yn ogystal bydd mynd i'r afael â phryderon defnyddwyr ynghylch rhai mathau o gynnyrch, gan godi ymwybyddiaeth o opsiynau eraill rhatach, a datblygu gallu darparwyr eraill yr ymddiriedir ynddynt i gynnig gwasanaethau ariannol ychwanegol, i gyd yn hollbwysig os ydym am newid ymddygiad sydd wedi dod yn arfer ers amser maith.

# Argymhellion

Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, mae Llais Defnyddwyr Cymru'n gwneud yr argymhellion canlynol.

## Dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau heddlu'n deall yn well yr angen am beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim mewn cymunedau penodol;
- adolygu pa mor dda y mae cymunedau gwledig yn cael eu gwasanaethu dan y rhaglenni presennol i gynyddu mynediad i beiriannau arian y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim, yn enwedig yn dilyn y rhaglen cau Swyddfeydd Post.
- Wrth ddatblygu ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Undebau Credyd:
    - weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru, Undebau Credyd unigol a chynrychiolwyr cymunedol y gellir ymddiried ynddynt, i ddatblygu ymgyrch farchnata sydd wedi'i thargedu ac sydd â phroffil uchel, i hyrwyddo'r gwasanaethau y mae undebau credyd yn eu cynnig i'r rhai a fyddai'n cael y budd mwyaf o'u gwasanaethau;
    - cynnwys camau gweithredu i feithrin cysylltiadau gwell rhwng undebau credyd a phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys cyflogwyr lleol, swyddfeydd post, canolfannau cyngor ar bopeth a chymdeithasau tai (yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r SCDC newydd, 'Moneyline Cymru');
    - hwyluso'r berthynas rhwng Undebau Credyd unigol i'w galluogi i rannu adnoddau ac felly cynyddu'r ystod o wasanaethau ariannol y gallant eu cynnig e.e. cyfrifon cyfredol undebau credyd, lle bo hynny o fantais.

## Dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol:

- sicrhau bod Cymru'n cael cyfran deg o'r cyllid sydd ar gael dan y rhaglen 'Moneymadeclear', gan sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu at grwpiau penodol (e.e. rhieni sengl, teuluoedd incwm isel) sy'n debygol o gael y budd mwyaf i ddechrau.

## Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU:

- weithio gyda'r diwydiant bancio i ddatblygu gallu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ariannol, megis undebau credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol a Swyddfa'r Post, fel y gallant gynnig gwasanaethau cyfrifon banc sy'n briodol i anghenion ac amgylchiadau pobl sy'n byw ar incwm isel;
- monitro'n ofalus yr effaith y mae gweithredu'r Gyfarwyddeb Credyd Defnyddwyr yn ei chael ar allu defnyddwyr i gael gafael ar gredyd fforddiadwy, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel neu incwm cyfyngedig lle mae cael gafael ar gredyd yn gallu bod yn broblem yn barod.

## Dylai banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd sy'n darparu cyfleusterau cyfrifon cyfredol:

- ddarparu cymorth wyneb-yn-wyneb i'r sawl sy'n agor cyfrif banc am y tro cyntaf, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sut y mae cyfleusterau debyd uniongyrchol yn gweithio, sut y mae pennu dyddiadau talu, a beth yw'r Warant Debyd Uniongyrchol;
- cynnwys 'clustog' o £10 yn rhad ac am ddim yn eu cyfrifon banc sylfaenol, er mwyn caniatáu ar gyfer rhywfaint o fwlch rhwng yr adeg y bydd arian yn cael ei dalu i mewn a'r adeg y bydd yn cael ei gymryd allan o'r cyfrif, heb fod hynny'n arwain at daliadau ychwanegol (ar hyn o bryd, mae llai nag un o bob tri banc a chymdeithas adeiladu'n cynnig cyfleuster o'r fath);
- datblygu ffyrdd arloesol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am drafodion eu cyfrif (e.e. drwy negeseuon testun) i'w helpu i oresgyn eu hofnau ynghylch colli rheolaeth;
- archwilio trefniadau posibl eraill ar gyfer taliadau electronig er mwyn lleddfu rhai o'r ofnau sy'n gysylltiedig â thaliadau debyd uniongyrchol (e.e. creu is-gyfrif ar gyfer talu biliau'n unig, fel yr awgrymir dan gynnig 'Saving from Poverty').

## Dylai'r rhai sy'n cyllido gwaith gallu ariannol (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a'r diwydiant gwasanaethau ariannol):

- sicrhau bod digon o gyllid cynaliadwy ar gael er mwyn i waith gallu ariannol barhau ar lefel gymunedol, yn enwedig yn ystod cyfnod sydd mor ansicr o safbwynt ariannol;

## Dylai awdurdodau lleol, yr heddlu lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol:

- gydweithio'n adeiladol â mudiadau cymunedol, adwerthwyr lleol ac eraill sy'n gobeithio gosod peiriant arian y gellir ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim ar eu safleoedd, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, er mwyn eu helpu i oresgyn unrhyw beth a allai rwystro lleoli peiriant yn eu hardal.

## Dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n cynnig cynlluniau yswiriant gyda rhent:

- ddefnyddio addysgwyr cymheiriaid yn fwy helaeth i roi gwybodaeth i denantiaid presennol, gan sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol a mynediad parhaus i rwydweithiau cymorth priodol er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth anghywir;
- gwneud gwaith penodol sy'n canolbwyntio ar fanteision cael yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref i annog tenantiaid newydd i fanteisio ar gynlluniau yswiriant gyda rhent yn rhan o'u 'pecyn croeso';
- dylai'r rhai nad ydynt yn cynnig cynlluniau yswiriant gyda rhent ar hyn o bryd ystyried gwneud hynny yn rhan o strategaeth cynhwysiant ariannol ehangach.

## Dylai sefydliadau cymunedol (e.e. undebau credyd, canolfannau cyngor ar bopeth):

- archwilio cyfleoedd i ymestyn eu gwaith gallu ariannol drwy'r broses o weithredu gwasanaeth Arweiniad Ariannol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, 'Moneymadeclear' yn genedlaethol, a fydd yn dechrau yn nhymor y gwanwyn 2010;
- Dylai undebau credyd nad ydynt yn cynnig cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar hyn o bryd ystyried cynnig y gwasanaeth hwn gan ei fod yn cynnig cyfle gwych i gyflwyno pobl ifanc i fanteision cynilo ffurfiol.
- O fis Ebrill 2010, dylai undebau credyd ledled Cymru geisio bod yn ddarparwyr y Porth Cynilo hefyd gan y dylai'r cyfrif hwn, sy'n cynnig cymhelliant i gynilo, helpu i gyflwyno mwy o ddefnyddwyr sydd ar incwm isel i fanteision cynilo ffurfiol.

## Dylai Moneyline Cymru:

- ddatblygu partneriaethau ag undebau credyd a darparwyr cyngor yn yr ardaloedd peilot i gynyddu'r ystod o wasanaethau ariannol y maent yn gallu eu cynnig i'w cwsmeriaid, megis cyngor ar gynilion a dyled.

# Atodiad - Methodoleg

Cafodd Beaufort Research Ltd ei gomisiynu gan Lais Defnyddwyr Cymru i gynnal pedwar grŵp ffocws mewn lleoliadau ar draws Cymru. Dewiswyd lleoliadau ar sail y ffaith eu bod wedi'u nodi ymhlith y rhannau o Gymru sydd wedi'u heithrio neu eu hamddifadu fwyaf yn ariannol, sef Merthyr Tudful, Torfaen, Wrecsam a'r Rhyl.

Roedd pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn byw ar incwm isel (sef, yn ôl y diffiniad, pobl ag incwm aelwydydd crynswth blynyddol (cyn treth a didyniadau) o £18,500 y flwyddyn ar gyfer aelwydydd un oedolyn a £29,000 ar gyfer aelwydydd dau oedolyn). Roedd pwyslais yr ymchwil ar bobl a oedd yn tueddu i fyw ar arian parod, felly cafodd ymatebwyr eu recriwtio i gymryd rhan yn y trafodaethau ar y sail eu bod bob amser, neu fel rheol, yn talu biliau'r cartref megis nwy, trydan a ffôn, gydag arian parod.

Yn ogystal, ceisiwyd sicrhau cymysgedd o ddynion a menywod a phobl oedd yn gweithio / pobl ddi-waith ar draws y grwpiau trafod, ac roedd gan bob un a gymerodd ran blant 16 oed neu iau yn byw gartref.

*Dangosir y fanyleb a fabwysiadwyd ar gyfer y grwpiau isod:*

| Grŵp | Lleoliad | Oedran | Math o aelwyd | Rhyw |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Merthyr Tudful | 18-30 oed | Rhiant sengl | Cymysgedd dynion/menywod |
| 2 | Wrecsam | 31-50 oed | Pâr â phlentyn / plant | Cymysgedd dynion/menywod |
| 3 | Torfaen - Cwmbrân | 31-50 oed | Pâr â phlentyn / plant | Cymysgedd dynion/menywod |
| 4 | Sir Ddinbych – Y Rhyl | 18-30 oed | Rhiant sengl | Cymysgedd dynion/menywod |

Bu pob un o'r pedwar grŵp yn trafod am hyd at 1½ awr, a chynhaliwyd y trafodaethau mewn lleoliad canolog a oedd yn hwylus i'r ymatebwyr. Cynhaliwyd tri chyfweliad manwl ychwanegol dros y ffôn hefyd (â phobl oedd wedi cytuno i fynychu ond nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol ar y diwrnod) i ategu canfyddiadau'r grwpiau. Cynhaliwyd yr ymchwil ym mis Mawrth 2009.

**Llais Defnyddwyr Cymru**
3ydd Llawr
Tŵr y Ddinas
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd CF10 3AG

Ffôn: 02920 787100
Ffacs: 02920 787101
Tîm y Cyfryngau: 02920 787 110/111
E-bost: contactwales@consumerfocus.org.uk

**www.consumerfocus-wales.org.uk**